# Help gyda
# CHOSTAU BYW
# Castell-nedd Port Talbot

www.npt.gov.uk/Helpgydachostaubyw



# Hawlio budd-daliadau a rheoli eich arian

Cael help i ddeall pa fudd-daliadau y gallech eu hawlio a pha gyngor sydd ar gael i'ch helpu i reoli'ch arian:

## Tîm Hawliau Lles Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Gall y Tîm Hawliau Lles eich cynghori a'ch cefnogi gyda hawliadau am bob budd-dal lles a thribiwnlysoedd apêl. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys Cynghorwyr Budd-daliadau Macmillan sy'n cefnogi cleifion canser a'u teuluoedd gyda chyngor budd-daliadau yn ogystal â Grantiau Macmillan.

**Ffôn: 01639 685225**
**Gwefan: www.npt.gov.uk/welfarerights**

## Advicelink Cymru

Mae Advicelink Cymru yn cynnig cyngor gyda sicrwydd ansawdd ar fudd-daliadau lles, dyled, cyflogaeth, addysg, tai, mewnfudo a gwahaniaethu.

**Ffôn: 0800 7022 020**
**Gwefan: www.citizensadvicesnpt.org.uk**

## Cyngor ar Bopeth – Abertawe Castell-nedd Port Talbot

Gall Cyngor ar Bopeth gynnig cymorth ar amrywiaeth o bethau fel pryderon ariannol, gwiriadau budd-daliadau, cyngor ar ddyledion ac ynni (gan gynnwys talebau tanwydd).

**Ffôn: 0808 278 7926**
**Gwefan: www.citizensadvicesnpt.org.uk/**

## Money Helper

Mae Money Helper yn wasanaeth a gymeradwyir gan lywodraeth y DU sy'n darparu cyngor diduedd am ddim ar ddyledion, arweiniad ariannol a phensiynau.

**Ffôn: 0800 011 3797**
**Gwefan: www.moneyhelper.org.uk**



# Cefnogaeth addysg ac ysgolion

Darganfyddwch pa gefnogaeth sydd ar gael i helpu gyda chostau anfon eich plentyn i'r ysgol.

## Grant Datblygu Disgyblion

Gall teuluoedd ar incwm isel fod yn gymwys i gael grant i helpu i brynu gwisg ysgol, offer, gwisg chwaraeon a chit ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

**Ffôn: 01639 763515**
**Gwefan: www.npt.gov.uk/schooluniformgrant**

## Prydau Ysgol am Ddim

Gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn 2024.

**Ffôn: 01639 763515**
**Gwefan: www.npt.gov.uk/costoflivinghelp**

## Gliniaduron (Digital Poverty Alliance)

Os ydych yn rhiant/gofalwr i blentyn (4-16) yng Nghastell-nedd Port Talbot nad oes ganddo fynediad i ddyfais addas, efallai y gallwch gael un - nid fel benthyciad neu ar rent, ond am byth.

**Gwefan: www.digitalpovertyalliance.org/tech4families**
**Testun: 07984 445476 neu ewch i'ch siop Currys leol.**

## Cynhyrchion Mislif

Gwiriwch gyda'ch ysgol leol am wybodaeth ar sut i gael cynhyrchion mislif am ddim.




# Biliau Cartref

Darganfyddwch pa gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i leihau eich biliau cartref.

## Cymru Gynnes

Mae Cymru Gynnes yn darparu cymorth a chefnogaeth i'ch helpu i leihau eich biliau ynni. Maent hefyd yn rheoli'r Cynllun Cymorth Caledi a ariennir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot sydd ar gael i'ch helpu i wresogi eich cartref yn fwy effeithlon ac i ddarparu cymorth i helpu gyda'ch biliau ynni os ydych yn cael trafferth.

**Ffôn: 01656 747 622**
**Gwefan: www.warmwales.org.uk**

## Dŵr Cymru

Mae gan Dŵr Cymru nifer o ffyrdd y gallan nhw eich helpu chi a gwneud eich biliau'n fwy fforddiadwy.

**Ffôn: 0800 0520145**
**Gwefan: www.dwrcymru.com/help-with-bills**

## Cymorth treth y cyngor

Os yw'ch cartref ar incwm isel, gallech gael cymorth tuag at rywfaint o'ch bil Treth y Cyngor neu'r cyfan ohono.

**Ffôn: 01639 686838**
**Gwefan: www.npt.gov.uk/counciltax**

## Nyth Cymru

Mae cynllun Nyth yn cynnig amrywiaeth o gyngor diduedd am ddim ac, os ydych yn gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim.

**Ffôn: 0808 808 2244**
**Gwefan: www.nyth.llyw.cymru**



# Costau gofal plant

Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot roi cyngor i chi ar ba gynlluniau sydd ar gael i'ch helpu gyda chostau gofal plant.

## Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant wedi'i ariannu i blant dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd penodol.

**Ffôn: 01639 873018**
**Gwefan: www.nptfamily.com**

## Gofal plant di-dreth

Os ydych yn deulu sy'n gweithio, efallai y byddwch yn gallu cael mynediad i ofal plant di-dreth a chredydau treth ar gyfer gofal plant.

**Ffôn: 01639 873018**
**Gwefan: www.nptfamily.com**

## Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae'r cynllun hwn yn cynnig 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu ac addysg gynnar i rieni plant 3 i 4 oed sy'n gweithio a rhieni ar gyrsiau addysg a hyfforddiant cymwys.

**Ffôn: 01639 873018**
**Gwefan: www.nptfamily.com**




# Dod o hyd i waith

Darganfyddwch pa gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i swydd.

## Cyflogadwyedd CNPT

Mynnwch help gyda phethau fel chwilio am swydd, ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad gan Wasanaeth Cymorth Cyflogaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

**Ffôn: 01639 860160**
**Gwefan: www.npt.gov.uk/nptemployability**

## Dewch o hyd i'ch canolfan waith leol

Gall eich Canolfan Byd Gwaith leol ddarparu cymorth i'ch helpu i baratoi ar gyfer gwaith, dod o hyd iddo ac aros mewn gwaith.

**Ffôn: 0800 169 0190**
**Gwefan: www.gov.uk/contact-jobcentre-plus**

## Cefnogaeth a chymorth lles arall

**Mind Castell-nedd Port Talbot**, 01639 643510, info@nptmind.org.uk

**Y Samariaid** – Rhadffon 116123

**Llinell Cyngor a Gwrando Gymunedol (CALL)**, 0800 132737 neu anfonwch neges destun i 81066

**CVS CNPT** – 01639 631246, www.nptcvs.wales/cost-of-living

**Cymorth Iechyd Meddwl 24/7** (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) – ffoniwch 111 opsiwn 2

www.npt.gov.uk/Helpgydachostaubyw